# YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys


Y TRI HYN.
RHEDEG AR OL CYSGODION.
EGLURO AC YMDDIHEURO.
CYRDDAU CHWARTER.
HUNANGOFIANT CARREG AELWYD.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.





Cyf. XXXVII

Rhag. 1937

Rhif 12

# YR YMOFYNNYDD

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

---

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.


**YN AWR YN BAROD.**

## COFIANT GWILI

**E. CEFNI JONES**

Pris 5s. (Drwy'r Post, 5s. 6c.)

---

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

## LLYFR OLAF IDWAL JONES

## Cerddi Digri' Newydd

**A Phethau o'r Fath.**

Pris 3s. 6c. (Drwy'r Post, 3s. 9½c.)

---

Y mae mwy o sbri yn hwn nag a oedd yn y CERDDI DIGRI'

# YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

*Golygydd : Y Parch. T. L. JONES*

CYFROL XXXVII. RHAGFYR, 1937 RHIF 12.

## Y Tri Hyn.

AR ddiwedd blwyddyn dymunaf o galon Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd well i'm holl ddarllenwyr gan ddatgan fy ngofid fod y Golygydd wedi ei orfodi gan afiechyd i roi i fyny cyn iddo ond megis agor ei rwn, a minnau fel '*understudy*' chwedl gwŷr y ddrama wedi fy nghymell i ddod i'r adwy, ond y mae gennyf ar bwys y Nadolig newyddion da i chwi—y mae'r hen Olygydd wedi symud i Rydychen i olymu'i offer cyn ail gydio yn ei waith, a Golygydd Newydd yn anterth ei rym yn barod i ddechrau gyda'r flwyddyn newydd fel y gallwn ninnau weithian ddyfynu Ceiriog heb newid ond un gair—

> "A bugeiliaid newydd *fydd*
> Ar yr hen fynyddoedd hyn."

Er bod un Golygydd yn mynd a Golygydd arall yn dod, fe ddeil YR YMOFYNNYDD yn ddolen gydiol rhwng aelod ac aelod a rhwng aelodau'r Ysmotyn Du ac aelodau ar wasgar, a dydd du a fydd y dydd hwnnw pan na ddaw'r YMOFYNNYDD fel negesydd misol atom. Byddaf yn disgwyl yn bryderus ond mewn ffydd er gweld p'un ai *un* neu *ddwy* N a fydd yn yr enw mwy. Carwn fod wedi dyblu'i gylchrediad ond ni lwyddais ond i ddyblu'r *n*. Gobeithio y llwydda ef lle methais i. O leiaf y mae 'nymuniadau goreu a'm gweddi gydag ef yn ei fenter newydd.

Y TRI HYN . . . *a'r cyntaf yw* GOLYGYDD NEWYDD.

Y mae'n naturiol i mi gyflwyno'r Golygydd Newydd—Y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., gweinidog Gellionnen a Threbanos, Pontardawe i ddarllenwyr YR YMOFYNNYDD gan mai un o blant Caer-

onnen ydyw, yn ŵr gradd Prifysgol Cymru ac yn medru Cymraeg. Ni wn i mo'i gynlluniau ond credaf y medr roi i ni gylchgrawn a graen arno. Y mae'n hannu o hen gyff Undodaidd, ac fe ddisgwyl llawer ohonom iddo wneud gwaith da. Pwy ŵyr na welir plant ein hysgolion Sul yn gadael cylchgronau Saesneg ac yn troi at YR YMOFYNNYDD eto? Hwyrach y medr roi i ni frasluniau o Undodwyr Mawr y blynyddoedd y bydd yn werth i'n pobl ieuainc wybod amdanynt.

Nid yw'n amhosibl iddo gael y canol oed a'r hen oddiwrth *News of the World* a'r *People* a'u cyffelyb gan eu cael i ddarllain Cylchgrawn yr enwad, nid am mai Cylchgrawn yr Enwad yw ond am fod graen llenyddol arno a thôn foesol uchel i bob erthygl ynddo. Addefaf nad gwaith rhwydd mohono ond credaf y dylasai fynd ati fel dyn yn wynebu'r amhosibl ac yna fe fydd yn sicr o lwyddo. O leiaf y mae cylchgrawn yr enwad yn ei ofal, a medr drwyddo i fesur mwy neu lai droi cwrs yr enwad i sianel newydd. Gobeithio y llwydda i dorri'i enw mewn llythrennau brâs ar garitor yr enwad. Aed rhagddo yn ei nerth a Duw a fo'n nawdd a chefn iddo.

Y TRI HYN . . . *a'r ail yw'r* PRIFATHRO NEWYDD.

Diddorol yw gweld Caeronnen a Brondeifi ar y *map*, a theimlaf hi'n anrhydedd bod y Prifathro newydd wedi'i eni a'i fagu ym Mrondeifi. Y mae ganddo yntau gyfleu i wneud diwrnod da o waith dros yr enwad gan roi delw ei gymeriad ef ei hun ar bregethwyr Cymru yr oes nesaf. Ni wn i mo'i gynlluniau yntau na nemor ddim am waith y Coleg. Yr wyf yn rhyw fath o weinidog arno a chaf felly roi awgrym cynnil iddo ef yn bersonol. Ni wn i mo safon y coleg na beth a ellir yn resymol ddisgwyl oddiwrth y myfyrwyr. Nid wyf yn sicr nad oes yna ddwy oruchwyliaeth—yr hen oruchwyliaeth yn pwysleisio'r ieithoedd marw a'r oruchwyliaeth newydd yn pwysleisio Cymraeg a Saesneg, gwybodaeth o'r Beibl, meddyleg sut i drin a thrafod pobl, a rhyw gymaint o allu i feddwl yn glir a dawn i'w drosglwyddo i'r gynulleidfa. Ni wn i p'un ai perthyn i'r hen oruchwyliaeth neu'r oruchwyliaeth newydd y mae'r Prifathro newydd, ond fel gŵr syml a phlaen y sydd wedi rhoi chwarter canrif bron i'r weinidogaeth dywedaf oni fedrir dysgu Hebraeg a Chymraeg, Lladin a Saesneg, aberther yr Hebraeg a'r Lladin bob cynnig. Nid oes dim yn fy nghlwyfo i fel clywed yr hen iaith yn cael ei llurgunio a'i bradu yn y pulpud. Na chamddealler fi. Os medrir cael crap ar yr Hebraeg, Groeg, Lladin a Syriag, pob peth yn dda, ond na cheisier cael *crap* arnynt ar draul esgeuluso pethau trymach megis Cymraeg a Saesneg, pregethu a'r grefft o ddysgu pobl i gadw at safonau uchaf bywyd. Nid wyf yn sicr nad Unben y sydd ei eisiau yng Nghaerfyrddin.

Y mae'r Coleg wedi dylanwadu'n drwm ar feddwl Cymru gan roi ei gyfleu i ryddid meddwl. Y mae iddo ei le ym mywyd crefyddol y genedl, nid i gystadlu a'r prifysgolion ond i loewi talent a dysgu i ddyn ei grefft o bregethu. Ni fedr coleg roi'r ' tân dwyfol ' yn y galon ond medr roi mîn ar yr offer a chredaf y buasai'n well i Goleg Caerfyrddin a cholegau eraill ddeall eu cenhadaeth heb geisio cystadlu a'r prifysgolion. Ni chredaf y'u bwriadwyd i droi allan ysgolorion yn ystyr gyfyngaf y gair ond pregethwyr. Nid yw'r gwahaniaeth cofier ond mater o bwyslais ond credaf y byddai'r pulpudau a Chymru ar eu hennill pe rhoid y pwyslais ar *bregethu.* Ni wn farn y Prifathro newydd ond credaf fy mod yn dweyd meddwl yr eglwysi, a phwy a ŵyr na chawn y Prifathro Newydd yn mynd yn ôl at ei gariad cyntaf, ac y caf ei glywed eto'n pregethu fel yng Nghwrtnewydd ddeugain mlynedd yn ôl. Y mae'r Bwrdd Presbyteraidd am unwaith wedi mentro mynd o'r hen rigolau. Gobeithio na siomir mohonynt ac y rhydd y Prifathro gyfeiriad newydd i'r Coleg er mwyn Cymru yfory.

Y Tri Hyn . . . *a'r mwyaf o'r tri yw* Ysbryd Newydd.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma yr wyf wedi darllain llyfrau ar brif gwestiynnau'r dydd megis " The Red Star over China ", " The Nazi Conspiracy in Spain ", " The Problem of the Distressed Areas " a'u cyffelyb er ceisio deall problemau'r byd a'r ofn y sydd wedi gafael yng nghalon gwerinoedd Ewrop. Ni cheisiaf basio barn na dadrys y problemau ond gwn os ydyw gwareiddiad i sefyll bod yn rhaid cael ysbryd newydd—ysbryd y Crist—nid yn unig i'r eglwysi ond i fasnach a gwleidyddiaeth—i ymwneud cenedl a chenedl, dosbarth a dosbarth a dyn a dyn. Rhaid i grefydd ymyrryd ymhob problem. Rhaid cael ysbryd newydd cyn eu solfio, ac ar bwys y Nadolig apeliaf am ysbryd newydd—ysbryd y Crist Tragwyddol i lefeinio bywyd dyn, a gwlad a dynoliaeth, a gobeithiaf gyda 1938 y bydd Yr Ymofynnydd yn dechrau cyfnod disgleiriach gyda'r Golygydd Newydd, hen Goleg Caerfyrddin yn dechrau cyfnod o wasanaeth mwy dan y Prifathro Newydd, a'r byd yn cael ei arwain o fyd rhyfel a gwasgfa a dioddef gan ysbryd newydd—Ysbryd y Crist.—T.O.W.

---

YN IACH.

Yn iach ennyd ! a chynnydd—ugeiniau
I gennad ein crefydd !
Eto a'i haul golched dydd
Enaid yr ' Ymofynnydd.'

I lygad hen Olygydd—y daw niwl,
Mado wnawn a'n gilydd :
Yn fawr ei barch fory bydd—
Ac yn ieuanc a newydd.

# Rhedeg ar ol Cysgodion.

III

TEBYGOL mai gwir yw fod y mwyafrif mawr o drigolion y byd yn dechrau cwrs eu bywyd ar y ddaear gan chwilio'n newynllyd am yr amhosibl, a cheisio'r annichonadwy, fel petai'n rhyw wrthrych sylweddol a dymunol o fewn cyrraedd pob ymdrechydd egniol ! Y mae'r baban bach ym mreichiau'i fam yn gweiddi am y lleuad, ac â'n gynddeiriog am nad oes neb wrth law a all egluro iddo paham nas caiff. Ac onid ydyw hyn yn nodweddiadol o ddynolryw drwy gydol yr oesoedd ym mhob rhanbarth o'r byd ? Oblegid bwndel o ddymuniadau ydym, bawb ohonom, o bob oedran, ymhob cam o'n rhodfa a phob cyfnod o'n bywyd ! Yn gorfforol, newynwn am ymborth a sychedwn am ddiod ; ac y mae'r llygad, y glust, pob archwaeth a synnwyr a gewyn, yn dyheu am fodlonrwydd. Felly hefyd yn ysbrydol a meddyliol. Cri am fodlonrwydd ydyw cri diddiwedd yr enaid, ac atseinir y cri hwn gan holl deithi'r meddwl dynol a phob dyhead calon. Efallai na ddarfu'r un diwinydd, athronydd, meddylegydd, nac eneidegydd erioed ddehongli'r gwirionedd hwn mewn ymadrodd mwy darluniadol ac awgrymiadol nag eiddo'r caniedydd Hebreig hynafol a ddywalltodd allan ei enaid yn y geiriau anfarwol hynny : " Fel y brefa'r hydd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid amdanat ti, O Dduw ! " A'r cri angerddol hwn am fodlonrwydd ysbryd, meddwl, a chalon a glywir hefyd yn nyhead lafaredig rhyw ffilosoffydd hynafol a elwir Iob—enw sydd wedi ei anfarwoli yn un o ddramodau rhyfeddaf llenyddiaeth y cynoesoedd : " O na wyddwn pa le y cawn ef, fel y deuwn at ei eisteddfa ef ! " Dyna ddyhead pob dyn difrifol heddiw. Dyhead yr ysbryd pur, y galon iach, a'r meddwl goleuedig yw hynyna—dyhead y doethion, nid dyhead rhai ffôl sy'n ymlid cysgodion !

* * *

Gan bob plentyn a fo'n dechrau siarad, gofynnir cwestiynnau a ofynnwyd gan blant o bob oedran filoedd o weithiau o'i flaen ef, eithr cwestiynnau nad atebwyd mohonynt yn foddhaol gan neb o ddoethion y ddaear erioed. O ethryb eu clywed, awr ac orig, yn enwedig ar wefusau plantos diniwed, hwyrach mai tuedd oedolion fel rheol, ydyw gwenu'n goegddoeth ar gwestiynnau fel hyn, gan eu hystyried yn ddim ond ysmaldod neu ffraethebau cyffredinol. Eithr cymhellant o leiaf rai pobl o dymer ddifrifol a thueddfryd feddylgar i fyfyrio ar ffynonellau'r chwilfrydedd a'r cyrweinrwydd

anorffwys ac anniwall hwnnw sydd yn arwain y meddwl dynol at ddirnadaeth o'r hyn sydd sylweddol, sicr, a gwir. Y plentyn yw tad y dyn.

Yna, sylwer ar blentyn arall ieuengach, sydd hyd yma heb ddysgu llefaru'n ddealladwy dafodiaith ei aelwyd a'i wlad, a hefyd heb arfer ymddiried ei bwys ar ei draed bychain ei hun. Sylwer ar ei ymdrech angerddol i neidio i freichiau ei rieni neu rywun arall a'i hoffo. Pa beth a welir yma ? Bid sicr, yn ymddygiad y baban fe welir datblygiad cynharaf y newyn calon rhyfedd a chyfriniol hwnnw a elwir " cariad ". Ond pa beth ydyw cariad ? Beth yw ei ansawdd a'i ystyr, a pha le y mae ei ffynhonnell ? A oes neb yn rhywle a ŵyr ? Wn i ddim. Ac eto—er mai dirgelwch ydyw, fel yr ymddengys, na fedrodd na diwinyddion, nac athronwyr, nac eneidegyddion erioed ei egluro na'i ddiffinio—gŵyr pawb ymhob sefyllfa mewn bywyd rywbeth amdano, ac am ei rym. A dyma'r gallu mwyaf grymus, mwyaf rhyfeddol ac anchwiliadwy yn y cyfanfyd ! Dwg i fod ymerodraethau, a difoda hwynt ! Gesyd i fyny freniniaethau, a dymchwela hwynt ! Y mae yn gwneuthur cartrefi, neu ynteu yn eu dad-wneuthur ! Y mae yn pureiddio calonnau, neu ynteu yn eu dryllio ! Y mae yn dyrchafu'r rhywiau i uchelder y nef, neu ynteu yn eu bwrw hwynt i lawr i ddyfnderoedd uffern ! Oni fyddo wedi ei lygru gan amcanion annheilwng a'i halogi gan hunanoldeb ymgysegra i wasanaeth dwyfol a dyrchafiad dynolryw—gan ddadlennu gwirionedd, dysgu doethineb, llefaru barddoniaeth, canu cerddoriaeth, ac ysgrifennu llyfrau—ysbrydoli llên, drama, arluniaeth, a chelf—a sancteiddio gorchwylion, chwaraeon, a difyrrwch y byd. Yng ngoleuni'r dirgelwch hwn (os goddefir y gwrth-ddywediad ymddangosiadol) yr amlygir gwerth, mawredd, a gogoniant y reddf grefyddol yn natur dyn ; oblegid yng ngrym cariad y galluogir crefydd oleuedig i greu nefoedd a gosod y Duwdod ar ei orsedd ! A dyma'r ffynhonnell ddwyfol y deilla allan ohoni'r hiraeth ysbrydol, y dyhead sanctaidd hwnnw sy'n cymell doethion a duwiolion y ddynoliaeth i geisio'r Anfeidrol, i ymestyn at yr Anfeidrol, i dramwyo Tragwyddoldeb, ac ymgartrefu yn yr Anweledig !

* * *

Ai cariad, ynteu—y peth dirgel ac anchwiliadwy hwn—sydd yn cyfrif am anfodlonrwydd blinderus, poenus, ac anniddig y byd ? Tebygol ddigon ! Beth bynnag am hynny, erys y ffaith, hwyrach yn fwy eglur heddiw nag erioed, fod dynion yn anesmwyth, diorffwys, ac anniddig drwy gydol eu dyddiau oherwydd eu methiant i gael gafael ar yr amhosibl a chyrraedd yr anghyraeddadwy ! A thra bônt yn parhau i redeg ar ôl cysgodion, ni wna copa unrhyw

fynydd eu digoni, oblegid y mae yna o hyd gopa uwch y tu draw iddo !

* * *

Yn awr, ynteu, pa beth yw canlyniad yr holl ymdrechu, yr ymegnïo, a'r rhedeg yma ? Beth yw ei ffrwyth, ei gynnyrch, ei wobrwy ? . . . Ond y mae gofyn cwestiynnau fel hyn yn awgrymu ystyriaethau eraill parthed y byd a'i gysgodion, ar linellau lled wahanol. Gwell peidio â dywedyd ychwaneg y tro hwn ar bwnc mor enfawr a dyrys.

*Chiselhurst, Caint.* D. Delta Evans.

# Egluro ac Ymddiheuro.

Odan y pennawd uchod, ymddengys yr hyn a ganlyn yn *Y Goleuad* (newyddiadur wythnosol Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig) dyddiedig Tachwedd 5, 1937 :

" A mi yn Sheffield fis Mehefin diwethaf, dymunwyd arnaf nyddu crynodeb o hanes Achos crefyddol Cymraeg Carlton, ger Barnsley. Ymddangosodd yr ysgrif yn y *Goleuad* Gorff. 7, 1937, ag ynddi'r paragraff a ganlyn :—

" Lefain Sur y Sosin.

" A'r ' Achos bach ' yn blodeuo a'r Cymry'n cadw'n gyfan, dyma anffawd yn digwydd. Yn gynnar yn y flwyddyn 1911, ymwelwyd â Gwladfa Gymreig Carlton gan y Parch. D. Delta Evans (*Hiraddug*), gweinidog Undodaidd, a lonnwyd gymaint gan yr hyn a welodd ac a glywodd nes ysgrifennu llith gymeradwyol i'r *Christian Life* ag ynddi apêl am gymorth ariannol i'r Cysegr Cymraeg ; ffrwyth hynny a fu derbyn gan ddarllenwyr y cylchgrawn hwnnw hanner cant o bunnau tuag at helaethu ac adnewyddu cartref crefyddol y Cymry. Ond pan drefnwyd rhoddi cyhoeddiad pregethu i Hiraddug, ac y dreifiodd Mr. Williams ef o'i dŷ (Rhydwen) hyd at yr addoldy, ni ddaeth undyn byw i'w wrando na'r bore na'r hwyr. Dychwelodd y pregethwr i Lundain bore drannoeth ; a phan ofynnodd Mr. Williams i Richard Jones, cafodd bod yr hen Drindodydd disyfl wedi galw heibio pob Cymro a Chymraes yn y cyffiniau i'w rhybuddio rhag mynd yn agos i'r lle, ac ' na wnai ef ddim eistedd o flaen pregethwr i wadu Duwdod fy Ngwaredwr '.

" Dywaid y Parch. D. Delta Evans yn bendant na ddigwyddodd dim o'r fath a grybwyllwyd yn niwedd y nodyn uchod ; sicrhâ na fu ef yn Carlton o gwbl ar ôl ail ymweliad fis Gorffennaf 1912, pryd y darlithiodd ac y pregethodd yn y Capel Cymraeg i gynulleidfaoedd croesawus a chymeradwyol i'w draethiadau ; a chwyna bod y crybwylliad yn adlewyrchu'n anffafriol arno ac yn niweidiol iddo fel gweinidog ac awdur.

" Gan Mr. D. J. Williams, Grenoside, ger Sheffield, y cefais holl fanylion yr ysgrif ; ef yw ffynhonnell y ffeithiau a'r honiad a goffheir yn niwedd y paragraff a ddyfynnir uchod ; corfforais innau'r digwyddiad fel ei cawswn ganddo ef, heb fwrw'r ensyniad lleiaf ar anrhydedd a chymeriad y Parch. D. Delta Evans, gan mai fy unig amcan ydoedd dangos y gwrthuni a gyfodai o ragfarn a chulni sectol ; ac er mai Mr. D. J. Williams sy'n gyfrifol am gynnwys yr hyn y cwynir o'i blegid, dymunaf finnau, plethwr y paragraff, ddatgan fy ngofid diffuant am y boen a'r blinder a berwyd i'r Parch. D. Delta Evans oblegid ei gyhoeddi.

*Llygad y Wawr, Birkenhead,* J. H. Jones (*Je Aitsh*).
Hydref 9, 1937.

" [Ategwn y cwbl a ddywaid Je Aitsh yn y llythyr uchod. Drwg gennym ninnau i'r amryfusedd ddigwydd. Gŵyr pawb a adwaen Je Aitsh nad oedd dim pellach o'i feddwl na pheri gofid i'r cyfaill y Parch. D. Delta Evans. Yr unig esboniad dichonadwy yw mai camgymryd personau a wnaed. Y mae'r Parch. Delta Evans, yn ei ysbryd brawdol arferol, yn derbyn yr eglurhad hwn.—GOL. *Y Goleuad.*"]

## Cyrddau Chwarter.

CYNHALIWYD y Cyrddau Chwarter ar hwyr Hydref 12 a thrwy gydol y dydd ar y 13 yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd, y sydd yn gofadail i weinidogaeth bur a llwyddiannus y diweddar Barch. John Davies. Y mae'r hen frigade wedi'n gadael a'r Parch. David Evans " The Last of the Barons " ddim yno gyda ni yn y Cyrddau. Yr oedd rhywbeth yn urddasol yn yr hen bregethwyr, ac yr oedd golwg fonheddig ar y sêt fawr o weld yno T.T., John Davies, Cribin Jones, R.J.J. ac eraill. Dweder a fynner, y mae rhywbeth mewn urddas, ac yr oedd yr hen frigade yn *urddasol* o leiaf. Hwyr Hydref 12 dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. E. O. Jenkins, a phregethwyd gan y Parchn. Lewis Williams a J. D. Jones, B.A., B.D., Golygydd yr YMOFYNNYDD. Y mae Mr. Williams yn pregethu cystal ag erioed a rhyw *sincerity* yn ei bregethu

y sy'n mynd adref. Y mae Golygydd yr YMOFYNNYDD yn newydd a barddonol, heb ddim yn eisiau ond ychydig rhagor o dân i wefreiddio'r cyfan.

Fore Hydref 13, yr oedd Pwyllgor y Gymdeithas ac yn y prynhawn traddododd y Parch. T. O. Williams araith ar " Gwilym Marles a Chrefydd " (ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf) a rhoes y Parch. E. O. Jenkins grynhodeb o ddylanwadau Gwilym gan bwysleisio y prif bwyntiau yn yr araith.

Awd trwy y rhannau defosiynol yn hapus iawn gan y Parch. S. E. Thomas, Capel Seion, a llywyddwyd yn fedrus gan Lywydd y Gymdeithas, Mr. John Hopkin, Trebanos.

Yn yr hwyr dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. E. G. Jones, Capelygroes a Chribyn, a phregethwyd gan y Parchn. T. O. Williams a J. Marles Thomas, M.A. Ni ddisgwylid i'r cyntaf bregethu ond oherwydd afiechyd y Parch. E. R. Dennis cymerodd ei le ar ôl gweinidog ieuanc Cefncoed. Y mae awydd arnaf ambell dro i feirniadu ond y perigl yw i rywun gamddeall a chamesbonio, a beirniadaeth felly yn peri tramgwydd. Ni wn i ddim am safon y pregethu ond gwn fod yma ryw naws hyfryd a chroeso calon fel arfer. Y mae *nodyn newydd* i'w glywed yn awr ac yn y man, a'r hen yn gwrando ar y " ceiliogod ifainc " chwedl Tomos Bartley. Credaf mai da i ni oedd cael bod yno.

## Hunangofiant Carreg Aelwyd.

HEN garreg aelwyd ddinod ydwyf fi, yn gorwedd ar lawr adfail sydd wedi ei fathru gan wynt a glaw'r blynyddoedd.

Ceir olion llwybrau'r llu ar hyd y llawr
A phan ar dro drwy encilfeydd y drain,
Mae mwmial swynol lleisiau yma'n awr
I'w clywed rhwng brefiadau da y Llain,
Ynghanol gwlad breuddwydion lu
'Rwy'n garreg fedd ddinod i'r dyddiau fu.

Fe'm gwelwyd gyntaf erioed mewn chwarel cerrig llwydion yn un â mam pob un, y ddaear. Nid hir y bum yno wedi agor y chwarel, cyn i mi gael fy nghludo allan i ochr ffordd wledig. Arhosais yma am ddwy flynedd a'm difyr waith oedd gwylio y cerbydau yn gyrru heibio. 'Four-wheeler' y cyfoethog yn chwyrnellu heibio i ddwy glocsen y dyn tlawd a orfodwyd y pryd hynny i gerdded yn ben isel yng nghesail y clawdd. Gwelais deithio'r wagenni calch yn llwydwawr y bore a'u dychweliad hapus

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

---

# YR YMOFYNNYDD

**Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.**

---

GOLYGYDD :—

Y PARCH. T. L. JONES, CAERDYDD.

---

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

---

**CYFROL XXXVII.**
**1937.**

---

LLANDYSUL :
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER.

CYNNWYS

Adolygiadau, 116, 129.
Atodiad i Helyntion Hen Bregethwr, 88.

Barddoniaeth,—
Ar Fôr Tymhestlog, 84.
Drwy'r Dagrau, 84.
Gwennol, 125.
Llong Bapur, 148.
Y diweddar Brifathro J. Park Davies, M.A., B.D., 161.
Y Trothwy, 36.

Cario Dwfr ym Mryniau Cassia, 160.
Comedi—" Yr Ymofynnydd ", 55.
Cymanfa Ganu Ceredigion, 110.
Cymanfa Ganu Sir Forgannwg, 80.
Cymdeithas Undodaidd Gymreig, 138.
Cyrddau Chwarter, 187.

Chwedl i'r Plant Lleiaf, 96.

Diwedd Ianto, 126, 136.
Dos i'th Ystafell, 1, 17, 33, 49.

Egluro ac Ymddiheuro, 186.

Father Christmas, 11.

Ffansi'r Ffin, 91.

Gwili, 149.
Gwilym Marles : Ei wasanaeth i Grefydd, 165.
" Gwyn eu byd y rhai addfwyn," 27.

Helyntion Meddwl Pregethwr Ifanc, 24.
Hunangofiant Carreg Aelwyd, 188.
Hunangofiant Pulpud, 112.
Hunangofiant Torrwr Beddau, 140, 156, 173.

Ionawr, 5.

Marwgofion, 15, 30, 45, 62, 80, 97, 115, 130, 146, 162, 179, 191.
Mrs. Ann Evans, Maesygaer, Ciliau Aeron, 121.

Neges Llywydd Cyfundeb yr Eglwysi Undodaidd 1937, 2.
Nodiadau'r Golygydd, 2.
Nodion yr Eglwysi, 15, 30, 47, 63, 82, 98, 132, 148, 163, 179, 193.

Ol traed ar y llwybrau gynt, 133.

Panteg, 123.
Pennod o Shiprys, 85.
Priodasau, 30, 45, 80, 97, 115, 162, 179, 190.
Pwerau, 34.

Rhai o Helyntion Hen Bregethwr a'i Gyfoedion, 6, 21, 37, 50, 70.
Rhedeg ar ôl Cysgodion, 154, 171, 184.
Rhys Pantrasis, 177.

Thomas Paine, 18.
Triciau Amser, 10.

Urdd y Benywod, 14, 129.

Vivat Rex Georgius ! 65.

Y Deffroad, 41, 78.
Y Prifathro John Park Davies, M.A., B.D., 101.
Y Prifathro yn ei Gadair, 106.
Eto—Ei Gyfraniad Cymdeithasol, 108.
Y Rebel, 117.
Y Tri Hyn, 181.
Yr Uchel Siryf, 59.

gyda'r hwyr. Ond fy ffrindiau mwyaf oedd y plant a deithiai heibio. Eisteddent arnaf i dorri cnau a chlywais drin a thrafod ar bynciau difyr. Daeth diwedd ar hyn cyn hir. Fe'm cludwyd ar drol i dŷ to gwellt twt a gwyn. Drwg oedd gennyf ado fy ffrindiau bach ochr y ffordd, ond daeth hapusrwydd eilwaith pan welais ddyfod o deulu hapus i fyw gyd â mi.

Fe'm rhoddwyd i orwedd o flaen y lle tân, yn garreg aelwyd ar lawr pridd, i wneud y tŷ ar teulu yn fwy deniadol a chlên. Gŵr a gwraig ifanc a ddaeth i fyw yno, a chofiaf y diwrnod cyntaf, diwrnod eu priodas. Dyna ddiwrnod hapus. Daeth y ddau i'r tŷ yng nghwmni eu teuluoedd a'u ffrindiau. Bu yna ginio, ac os nad oedd yno ddanteithion brâs, yr oedd pawb yn hapus ddigon. Yna cafwyd neithior y noson honno, lle y cenid ac adroddid a'r cwrw yn llifo rhwng y straeon difyr,—ac ynddynt ar dro ! Nid oedd disgwyl gwell, fel hyn y'n gwahoddwyd :—

> " Deuwch i'r briodas na fyddwch yn ddiflas
> I gael cwrw melyn, bara cyrch a menyn
> Tra byddoch yn smoco pib lawn o ddybaco
> Mi fyddaf i yno'n ofalus i'ch tendo."

Yna cyn myned oddi yno rhoes pawb a fedrai swm fach o arian, cwdyn o flawd neu rywbeth defnyddiol i " ddechrau'n byd ".

Treiglodd rhod amser yn araf ond sicr. Chwaraeodd plant arnaf unwaith eto a gwelwyd ôl gerwinder gwaith ar ddwylo ac wynebau y gŵr a'r wraig. Ond yn rhyfedd iawn myned yn fwy llyfn wnaeth fy wyneb i gyda threigliad amser. Ymadawodd y plant o un i un, ac yr oedd sŵn ansicrwydd yng ngherddediadau'r hen ŵr a'r hen wraig bellach, a sylwais arnynt yn nesau at y tân. Meddyliais am linellau'r bardd wrth glywed sŵn Cloch y Llan yn dynesu—

> " A phwy fydd ei hunan yn ymyl y tân
> Yn dlawd a di-gysur ei fyd ;
> Fe fyddai'n drugaredd, oni fyddai Sian,
> Pe galwai'r hen gloch ni'r un pryd."

Ni alwodd yr " hen gloch ni'r un pryd " a dyma fi, hen garreg aelwyd ddiolwg yn gorwedd yn unig o flaen tân sydd wedi hir ddiffodd ac heb dô uwch fy mhen.

* * *

Ar ôl i'r hen garreg aelwyd ddweud ei stori wrthyf, diolchais fel hyn iddi,—

O dan frau weddillion
  Llwydaidd fur,
Cefais olwg arnat,—
  Ennyd bur.

Llenni llwydion Amser
  Dros dy wedd ;
Dim ardduniant bellach,—
  Naws y bedd.

Henaint a'i erwinder
  Aeth a'r byw ;
A'r hen swyn cyntefig
  Marw yw.

Pallodd tramwy teulu'r
  Amser gynt
Troed ni'th dery namyn
  Sang y gwynt.

*Tregroes.* D. J. D.

---

DIENW.

Dwy funud fer y sefais
  Mewn atgof llaith,
Dwy funud fel rhandaliad
  Am ofer waith.

Fe'm syfrdanwyd ennyd
  Gan lysiau'r cwsg
Ond, och i mi arogli—
  Gwaed yn eu mwsg.

Dwy funud fer y sefais
  Mewn atgof gwawd ;
Nid oes ond esgyrn mwyach
  Lle gynt bu'r cnawd !

*Tregroes.* D.J.D.

# Priodasau.

YNG Nghapel Pantydefaid, dydd Mercher, Medi 29ain, unwyd mewn glân briodas DAVID BRINLEY MORRIS a CISSIE THOMAS, gan y Gweinidog yn mhresenoldeb y cofrestrydd, Mr. D. Davies. Y Nef a fendithio yr uniad hyfryd hwn.

DYDD Llun, Hydref 25ain, yn yr Hen Dy Cwrdd, Trecynon, o flaen y cofrestrydd a'r Parchn. E. R. Dennis, ac E. O. Jenkins, unwyd mewn glân briodas y Parch. J. MARLES THOMAS, M.A., gweinidog yr Hen Dy Cwrdd, Cefn Coed, a Miss MARY DAVIES, merch Mr. D. R. Davies, a'r diweddar Mrs. Myfanwy Davies, Cledwyn Terrace, Trecynon. Daeth nifer fawr o gyfeillion ynghyd, o Dalgarreg, Cefn Coed, a'r Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., o Drebanos, i ddymuno iddynt bob llwyddiant ar ddydd eu priodas. Dymunwn iddynt iechyd a phob bendith ar eu taith yn y dyfodol.

FORE dydd Iau, Medi 16eg, yn yr Hen Dy Cwrdd, Trecynon, gan y gweinidog, y Parch. E. R. Dennis, ac o flaen y cofrestrydd unwyd mewn glân briodas Mr. JOHN EURYN DAVIES, Ardwyn, Trecynon, a Miss ELIZABETH ELEANOR WILLIAMS, Gelly Isaf, Trecynon. Siwrne dda iddynt a phob bendith.

# Marwgofion.

MEDI 19 bu farw DAVID HENRY MORGAN, Arosfa, Trebanos, ar fin cyrraedd ei 70 mlwydd oed. Yr oedd yn un o deulu lluosog y diweddar Henry Morgan, un o apostolion Undodiaeth yng Nghwm Tawe a cholofn yng Ngellionnen a'r Graig. Dyna'r traddodiad y meithrinwyd Mr. D. H. Morgan ynddo, a rhodiodd yn ffyddlon yn y llwybr hwn hyd y diwedd. Dioddefodd naw wythnos o gystudd, ac am dair ohonynt bu dan driniaeth yn Ysbyty Clydach. Datguddiodd yn ei gystudd ysbryd amyneddgar a sirioldeb sy'n tarddu o fywyd mewnol mewn harmoni. I bob ymwelydd yr oedd ganddo wên groesawus a diolch am y cymwynasau lleiaf. Yn y blynyddoedd diwethaf bu'n *engine driver* yng nglofa Glyn Coch, Craig Cefn Parc. Yn ei ieuenctid gweithiai yng nglofa Graigola, Glais. Yn ieuanc yr oedd yn un o bedwar a gychwynodd y *Trebanos Band*, seindorf a ddaeth wedi hynny'n un o oreuon Deheudir Cymru, ac yn enwog drwy'r wlad. Ar y cychwyn efe ydoedd yr arweinydd, a diddorol ydyw cofnodi ei fod yn un o wyth o frodyr yn y seindorf. Gweithiwr syml ydoedd, diwyd a chelfydd, yn artist mewn haearn a phres. Prynodd yr amser er diwyllio ei hun, a gwelid hynny'n amlycaf yn ei gariad at gerddoriaeth. Cynnyrch naturiol yr aelwyd y magwyd ef arni ydoedd hwnnw, ond trwy ymdrech fe ddaeth Mr. Morgan yn feistr ar ddeddfau'r gelfyddyd. Cerddodd ym mhell ar lwybrau Teyrnas Cân, ac yn ei galon yr oedd cyfrinachau'r wlad. Rhwng harmoni a'i enaid ef yr oedd cysylltiad agos. Handel, Beethoven, Mozart, a'r meistri ereill—dyna ei gwmpeini ef. Efe a gyfansoddodd y dôn "Gellionnen" a genir mor fynych yn ein cynulleidfaoedd ni, ac a genir hefyd mewn Cymanfaoedd Canu tu hwnt i ffiniau'r enwad yr oedd efe'n aelod ohono. Yn nwyfiant ei nodau y mae adlais o fywiogrwydd a chenhadaeth yr hen Gapel ar y mynydd. Yr oedd gan Mr. D. H. Morgan drysorfa lawn o hanes yr hen adeilad. Yr oedd yng nghlwm a phrofiadau a theimladau dyfnaf ei fywyd.

'Mae'r ffordd fel llinyn arian
Yn troelli am y bryn
Lle dringodd hen gyfoedion
Yn hoen y bore gwyn."

Iddo ef y mae arnom ddyled fel enwad am gyfoethogi caniadaeth y cysegr. Gwerinwr a gweithiwr—ei gredo seml a'i fywyd wedi eu sylfeini ar ddysgeidiaeth aruchel emynau Iolo Morgannwg ; ei enaid ar dân dros yr egwyddorion sy'n ceisio codi i'r lan safon bywyd ein dynoliaeth ; ysbryd sensitif i ganfod pob diodd-efaint ar lwybrau dynion ; un ag ol diwylliant ar ei waith ac ar ei leferydd—dyna Mr. D. H. Morgan. Brwdfrydig a selog dros ei Gapel a'r Ysgol Sul, fe'u gwasanaethodd yn ffyddlon fel blaenor yng nghyflawnder ystyr y gair.

Daerwyd ei weddillion ym mynwent Coedgwilym y dydd Iau canlynol, y Parchn. J. D. Jones, a Daniel John yn gwasanaethu. Mewn galar ar ei ol y mae'r weddw a'r ferch, chwech o fechgyn, wyrion, ynghyd a thorf luosog o berthynasau a ffrindiau. Gedy le gwag ar ei ol, ond fe saif ei goffadwriaeth yn gysegredig.

Medi 20, bu farw Miss ELEANOR WILLIAMS, Tanllan, Llanwnen, yn 63 oed. Yn yr angladd y dydd Gwener dilynol gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. Lewis Williams, a David Evans, yn y Capel yng Ngalltyplaca gan y gweinidog y Parch. S. E. Bowen, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. Yr oedd Nell, fel ei hadnabyddid wedi bod yn wael ers amser, a rhyw ddwy flynedd yn ôl bu dan driniaeth y llaw-feddyg ond drwy'r cyfan cadwodd yn ysbrydol. Yr oedd yn aelod selog a ffyddlon yn Alltyplaca, ac yr oedd ei serch at yr achos yn eithriadol dda, ac yn hyn cadwodd mewn modd teilwng draddodiadau ei theulu. Gweithiodd yn galed drwy ei bywyd, ac adnabyddid hi gan gylch helaeth fel un barod i wneud cymwynas. Gadawodd nifer o berthynasau mewn hiraeth ar ei hol.

Hydref 7, yn 32 mlwydd oed, wedi cystudd byr bu farw MONA MARGUERITE, annwyl briod Mr. Evan David Jones, 123, Fernhead Road, Llundain, mab Mr. a Mrs. Jones, Llwynonn, New Street, Llanbedr. Nid oedd ond ychydig dros flwyddyn er iddi briodi ac o'r amser byr hwn treuliodd ei hanner bron yn yr Ysbyty. Trueni oedd gweld merch ieuanc yn gwywo mor gynnar, ar drothwy bywyd priodasol hapus. Y dydd Llun dilynol, Hydref 11, claddwyd hi yn Marylebone Finchley Cemetery, a gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. D. Jeffrey Davies, Ealing. Gadawodd briod, mam, brawd a chwaer i alaru o'i cholli mor gynnar.

Hydref 30ain, yn 61 oed, "Inspector" JOHN M. DAVIES, Hawthorne, Pontypridd. Un o blant Capel-y-Bryn oedd, wedi ei eni a'i fagu yng Nghwrt-newydd a brawd i Mrs. Evans, Mill Rose Park. Gwasanaethodd yn anrhydeddus fel hedd-geidwad yn y Rhondda am 40 mlynedd, ac yn ystod y 10 mlynedd olaf yn y radd o "Inspector". Yr oedd nifer luosog, oddeutu cant, o'i gyd-swydd-ogion yn yr orymdaith ar ddydd ei angladd, a'r dorf fawr o drefi'r Cwm yn fynegiad amlwg o'r parch oedd iddo. Claddwyd y dydd Iau dilynol yn Cemetery, Trealaw. Gwasanaethwyd yn y Ty gan y Parchn. Mansel Thomas (B), Salem, Porth, a S. E. Bowen, Capel-y-Bryn, ac ar lan y bedd gan y Parchn. Mansel Thomas, a T. Alban Davies (A), Ton Pentre. Gadawodd weddw a mab mewn hiraeth dwys ar ei ol. Ym mhlith y galarwyr eraill a oedd yn yr angladd oedd Mr. a Mrs. Evans, Mill Rose Park ; Mr. Rhys Davies, Y Felin, a'r Parch. John Evans, a Miss Evans, Aberystwyth.

Bu farw MARGARET THOMAS, Dan-y-Capel, Prengwyn, Llandysul, Hydref 2, yn 73 mlwydd oed, claddwyd ei gweddillion marwol ym mynwent Pantydefaid, Hydref 5, gyda'r Parch. E. J. Evans (W) yn gwasanaethu yn y ty, y Gweinidog yn pregethu yn y Capel a'r Parch. E. O. Jenkins, yn gweddio ar lan y bedd. Bu y diweddar chwaer yn edrych ar ol Capel Pantydefaid am flynyddoedd a bu yn ffyddlon iawn yn ei gwaith.

COLLODD Eglwys y Graig, Llandysul, un o'i aelodau cyntaf drwy farw ELIZABETH LEWIS, Pontwelly, Hydref 10, yn 71 mlwydd oed. Anghyhoedd oedd yr angladd gwasanaethwyd gan ei Gweinidog. Pregethodd y bregeth angladdol yng Nghapel y Graig y Sul canlynol. Gwraig ddefosiynol, cymydoges garedig ag aelod ffyddlon, mae ei hymadawiad wedi creu bwlch ym mywyd pentref Llandysul.

HYDREF 16, bu farw RACHEL EVANS, Tabernacl Cottage, Llandysul, yn 80 mlwydd oed, a chladdwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent Llwynrhydowen, Hydref 20. Anghyhoedd oedd yr angladd hwn hefyd a gwasanaethwyd yn y ty, yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parch. E. Gwilym Evans, ei Gweinidog. Wele, fywyd diwyd, gweithgar a gonest wedi dirwyn i ben. Estynwn ein cydymdeimlad

ETO mae tristwch a galar wedi disgyn ar gynulleidfa Eglwys Pantydefaid fel cysgod du, drwy farwolaeth disyfyd y brawd annwyl JOHN JONES, Glyniscoed, Ffostrasol, dydd Iau, Tachwedd 25, yn 65 mlwydd oed. Ym mhresenoldeb torf fawr o'i berthynasau a chyfeillion claddwyd ef ym mynwent Pantydefaid, dydd Llun, Tachwedd 29. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. D. Rhydderch, B.A. (A), pregethwyd y bregeth angladdol gan ei weinidog ar y geiriau,—"Cuddiedig ddyn y galon . . . o ysbryd addfwyn a llonydd, yr hwn sydd ger bron Duw o werth mawr,"—disgrifiad cywir o'i gymeriad prydferth. Bu yn ffyddlon drwy ei oes i'r achos da ym Mhantydefaid, ac er ei oddiweddyd gan afiechyd blin y blynyddoedd diwethaf nid esgeulusodd ei gartref crefyddol ; 'roedd yn yr addoliad boreol Sul cyn ei farw. Fel aelod a blaenor llanwai le pwysig yn ein mysg. Dyn tawel, addfwyn, heddychlon,—"*he carried music in his heart*". Cydymdeimlwn yn ddwys fel cynulleidfa a gweinidog a'r weddw â'r ddau fab. Duw a fyddo iddynt yn gymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

# Bedyddiadau.

BEDYDD.—Sul 24ain, yng Nghapel Ciliau Aeron, gan y Parch. Lewis Williams, bedyddiwyd CATHERINE MARY HILARY, baban Mr. a Mrs. Timothy Jonathan, Hampton House, Ciliau Aeron.

BEDYDD.—Yng nghapel Caeronnen fore Sul, Hydref 3, gan y Gweinidog, bedyddiwyd JANE ELLEN MARY MARGRETTA 'JEAN', baban Mr. a Mrs. John Davies, Rhydderch, 79, Clare Road, Cardiff.

# Nodion yr Eglwysi.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.—Cynhaliwyd cyfres o Gyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf, yn yr Hen Dy Cwrdd, Aberdar, Saboth, Medi 26ain, 1937. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr. Cafwyd cynulliadau da, a hwyl dda yn y tair oedfa, y pregethu yn hyawdl a'r gwrandawiad yn astud, a'r awargylch yn hyfryd. Yn anffodus methodd ein parchus weinidog, y Parch. E. R. Dennis fod yn bresennol, oherwydd afiechyd trwm. Y nos Lun ddilynol traddododd y Parch. T. Oswald Williams ddarlith ddylanwadol ac adeiladol iawn i glywedigaeth cynulliad da eto, ar y testun, "*Y Bedyddwyr Cyffredinol*". Wedi rhagymadroddi tipyn aeth y darlithydd a'n meddyliau yn ol am ganrifoedd er cael man cychwyn, yn ol i'r ddeunawfed ganrif, pan oedd crefydd a phopeth crefyddol yn isel eu pen. Dywedodd y diweddar

Barch. Thomas Shankland, M.A., fod unarddeg o eglwysi wedi cael eu diaelodi o'r Gymanfa yn Salem, Meidrym yn 1779, ar gwestiwn Rhyddid ac ymchwil cydwybodol. Tair eglwys yn Neheudir Cymru sydd yn aros fel y Bedyddwyr Cyffredin, sef Panteg, yn Sir Gaerfyrddin, Notais a'r Wig, yn Sir Forgannwg. Credai y Bedyddwyr Cyffredinol y pryd hwnnw fod Crist wedi marw dros bawb yn ddiwahan a'r Bedyddwyr Neilltuol yn credu mai marw dros yr etholedigion a oedd wedi cymryd eu bedyddio drwy drochiad ar gyffes o'u ffydd. Medrwn fynd yn ol i'r oesoedd canol i gael gafael ar gychwyniad diwygiad am rhyddid. Cawsom gyfeiriad at amryw o arweinwyr gweithgar yn y cyfeiriad yma. Yn 1524 ceir hanes am gyfarfod neilltuol pan gytunwyd ar fedydd troch yn Waldshut, ond yn 1640 y ceir Bedyddwyr Lloegr yn mabwysiadu bedydd troch. Olrheiniodd yr hanes yn dra manwl lawr drwy'r blynyddoedd hyd y presennol, a barn pawb ar y terfyn oedd eu bod wedi cael darlith dda ac adeiladol.

CAPEL Y CWM.—Yng Nghapel-y-Cwm, nos Wener, Hydref 8, gwasanaethwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., yng Nghapel-y-Bryn ar yr 22, gan y Parch. John Evans, B.A., Aberystwyth, ac yn Ngalltyplaca ar y 27, gan y Parch. Morris Jones, Capel Nonni, a'r Parch. W. H. Jones, gweinidog newydd Rhydybont yn cymryd y rhan arweiniol. Cafwyd cynulliadau da, er ar y ddau achlysur olaf yr oedd y tywydd yn eithriadol o wlyb.

CAPEL-Y-BRYN.—Ar y 4 o Hydref, dathlodd Mr. a Mrs. Griffith Jones, Castle Green (gynt) o Brynllefrith eu Jiwbili priodasol, a'r Sul dilynol mynegodd gynulleidfa Capel-y-Bryn eu llawenydd a chyflwynodd iddynt eu llongyfarchiadau gwresocaf. Dymunir i'r ddau gyd-deithio eto weddill y daith mor hyfryd ag y maent wedi cydgerdded hyd yn hyn.——Wrth ddewis Miss Evans, Blue Bell i ofalu am ddosbarthu yr Ymofynnydd, fe atgofiwyd am y tymor maith y cyflawnid y gwaith hwn, ac mewn modd mor dda gan y diweddar John Jones, Crosshands.

ALLTYPLACA.—Cyfarfu Urdd y Benywod i gychwyn y tymor nos Wener, 15 o Hydref, a gwahoddwyd yr aelodau i de gan Miss Evans, Maesymeillion. Yr oedd yn flin gan bawb bod anhwyldeb wedi rhwystro Miss Evans i fod yn eu plith. Cyflwynwyd iddi y diolchgarwch gwresocaf gan y Gweinidog a Mrs. Jenkins, Y Bryn. Yr oedd 28 yn bresennol ac yr oedd hyn yn argoeli yn dda am dymor llwyddiannus.

BRONDEIFI.—Y mae Urdd y Benywod wedi dechrau gwaith y tymor ers tro, ac wedi gwau *dau gwilt* gogyfer a Winifreds House, yn Llundain. Y mae'r aelodau wedi bod wrthi'n brysur, a nos Iau diweddaf a'r cwiltiau'n barod rhowd gwledd o dê i'r aelodau gan Mrs. Evans, Coedmor Hall (a phawb yn falch ei bod yn edrych cystal eto) a Mrs. E. H. James, The Pharmacy, Llanbedr. Bernir bod y ddau gwilt yn wir deilwng ac a chrefft arnynt.

CAERONNEN.—Y mae'r Urdd wedi dechrau yma hefyd a'r aelodau wrthi'n gwau cwilt—a'r ffyddloniaid wrthi'n brysur gyda phob gwaith da.

TREBANOS.—Dydd Sadwrn, Medi 11, cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol Cymdeithas Undodaidd De-ddwyrain Cymru, yng Nghapel y Graig, Trebanos, a'r pregethwr arbennig ydoedd Dr. N. Bishop Harman, M.B., Ll.D., F.R.C.S., Llywydd y *General Assembly of Unitarian and Free Christian Churches*. Wedi darllen a gweddi gan Mr. Aubrey Martin, B.A., myfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin, cymerwyd y gadair gan Miss H. Hargrove, Penmain, a thrafodwyd gwaith y Gymdeithas. Rhoddwyd braslun o gyflwr Trysorfa'r Myfyrwyr, a chafwyd adroddiad ar sefyllfa'r achosion sy'n derbyn cymorth ariannol y Gymdeithas. Rhoes Miss Hargrove groeso gwresog Undodiaid Morgannwg i Dr. Harman, a thraddododd yntau araith ddiddorol ar " Anghydffurfiaeth—paham · " Dywedai

fod Undodiaid rywfodd yn derbyn anghydffurfio fel peth anochel—*inevitable*, heb ystyried ei angenrheidrwydd na'r drygau a all fod yn perthyn iddo. Rhoes i ni grynhodeb o hanes anghydffurfiaeth o ddyddiau Dr. Hooker, a phwysileisiodd yr angen heddiw am yr un ysbryd anghydffurfiol ag a ddatguddiwyd gan ein teidiau. Dywedai fod gan y Mudiad Undodaidd (fel Anghydffurfwyr) ei le a'i waith yn y byd. "Rhaid i ni, Undodiaid, fod yn Anghydffurfwyr oherwydd nad oes ar y mudiad eglwysig ereill ein heisiau, ac oherwydd na allwn ni fod fel arall, a bod yn ffyddlon i gydwybod yn yr ymchwil am wirionedd." Dywedai'r siaradwr nad oedd anghydffurfio, ohono'i hun, yn beth da. Ystyr anghydffurfio ydyw anghydweled, ond pan fo rhyddid barn mewn perigl, a dibrisir hawliau dyn i gerdded yn feddyliol yng ngoleuni rheswm, yna y mae ein lle ni gyda'r "sawl sydd yn anghydweled." Cyfeiriodd at fudiadau meddyliol yn ein byd ni heddiw sy'n ceisio gwneud y wladwriaeth yn ben a chrefydd yn gaethferch i'r wladwriaeth. Byddwn ffyddlon i'r egwyddorion y'n dysgwyd ni ynddynt. Ymdrechwn i gadw yng nghynn y goleuni sy gennym, a bwrw ei wawl oddiamgylch. Yn oedfa'r hwyr dechreuwyd y gwasanaeth gan y Gweinidog (Parch. J. D. Jones), a dyfynnodd Dr. Harman yn destun ei bregeth eiriau'r Diarhebion, "Fel y meddylia dyn yn ei galon, felly y mae efe." Yng nghwrs pregeth odidog, adeiladol dangosodd i ni'r gwahaniaeth rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin yn eu triniaeth o "deulu'r angenoctid." Dywedai y cyfrifid am y gwahaniaeth hwn gan bwyslais Cristnogaeth ar urddas a gwerth bywyd dyn. Crefydd Iesu'n unig ymhlith crefyddau'r byd sy'n sylfeini ei chenhadaeth ar y gwirionedd hwn. Rhoes y pregethwr i ni ddarluniau prydferth, a dynnwyd o feysydd gwyddoniaeth a meddyginiaeth, i egluro ei bynciau. Y bore Sul dilynol cymerodd Dr. Harman ran yn y gwasanaeth yng Nghapel Gellionnen, yn y prynhawn bu'n siarad yng nghyfarfod agor Capel Highland Place, Aberdar, wedi i'r adeilad hwnnw gael ei adnewyddu dan law'r paentwyr a'r adgyweirwyr, ac yn yr hwyr pregethodd yng Nghapel Abertawe.

Dydd Iau, Medi 16, cynhaliwyd y Tê blynyddol a'r *Bazaar*. Daeth tua phump cant ynghyd i eistedd wrth y byrddau. Agorwyd y *Bazaar* eleni gan Mrs. E. Lewis, J.P., Trebanos House, a rhoddwyd *bouquet* iddi gan Helen Rhona Bevan. Llywyddwyd yn y seremoni agor gan y Gweinidog, a diolchwyd i Mrs. Lewis gan Miss A. Morgan, llywydd yr adran o Urdd y Gwragedd, Mrs. M. T. Davies, ysgrifennydd, a Mr. John Hopkin. Er cyfynged y lle edrychai'r *stalls* ar eu gorau, a gwelid arnynt waith rhagorol—ffrwyth llafur a diwydrwydd aelodau'r adran yn ystod y flwyddyn. Diolchwn i bawb a roddes gymorth i wneud yr ymdrech mor llwyddiannus. Dywed y trysorydd, Miss E. H. Hopkin, y trosglwyddir, wedi cael y cyfrifon i gyd i mewn, heibio i gan punt i drysorfa Neuadd newydd. Diddorol hefyd ydyw cofnodi, yn ol y rhagolygon presennol, y bydd y Neuadd newydd dan do cyn diwedd y flwyddyn.——Nos Iau, Medi 23, cynhaliwyd sosial i ffarwelio a Mrs. W. J. Bevan a'i theulu cyn ymadael ohonynt am Dde Affrica. Aeth Mr. W. J. Bevan, M.E. allan i fwngloddiau aur Johannesburg ryw ddwy flynedd yn ol. Hwyliasant o Lundain yn y *Dunluce Castle* ar Hydref 8. O'r teulu nid oes ond un yn aros yma, sef Mr. Eddie Bevan, Deputy Clerk y Pontardawe R. D. Council. Siaradwyd ar yr achlysur gan Mr. John Hopkin, Mr. Lewis Morgan, Clydach, Miss A. Morgan a'r Gweinidog. Nos Sul, Hydref 3, anrhegwyd Mary, Nancy, Helen a John a phobo Feibl gan ddeiliaid yr Ysgol Sul. Bu'r plant hyn yn ffyddlon iawn yn mynychu'r Capel a'r Ysgol. Rhoes dosbarth Mrs. S. J. Edwards sosial ffarwel iddynt y nos Fawrth dilynol. Yn ddiweddar enillodd Nancy ei *Senior Certificate C.W.B.* yn Ysgol Sir Ystalyfera, a dwy flynedd yn ôl yr enillodd fathodyn Cymdeithas yr Ysgol Sul yn yr ahroliad blynyddol. Cafodd John yntau ysgoloriaeth yn Ysgol Ganol Pontardawe. Eiddunwn iddynt iechyd, llwyddiant a dedwyddyd yn eu cartref newydd. Yn yr oedfa hon cawsom hefyd y fraint o wrando ar y Parch. Dr. W. Griffiths, Aberystwyth, yn pregethu mor rymus ag erioed.——Dydd Sul a nos Lun, Hydref 17 a 18, cafwyd cynulliadau llawn ar achlysur y Cyfarfodydd Blynyddol. Y pregethwr arbennig ydoedd y Parch. Lewis Williams, ac yn ôl ei arfer, traethodd ei genadwri'n felus, hwylus

a dwys. Diolchwn iddo am adeiladaeth ysbrydol. Diolchwn hefyd am gyfraniadau caredigion yr achos. Casglwyd y swm o £62.

CAPELYGROES.—Nos Sul, Hydref 10 daeth llu o gyfeillion ynghyd i gyflwyno anrheg o *canteen cutlery* i Mrs. Ena a Tom Thomas, Blaenwaunganol a Llysfaen-isaf, fel rhodd priodasol ac fel arwydd o werthfawrogiad yr eglwys o wasanaeth Mrs. Thomas fel organyddes a Mr. Thomas fel trysorydd yr Ysgol Sul; ac er fod taith bell gan Mrs. Thomas i ddyfod gwnelai ymdrech deg i fod gyda'r organ yn gyson. Siaradwyd gan y Gweinidog a Mr. J. Evans, C.S., Y Beili, a dygpwyd tystiolaeth uchel i'r ddau o'u gwasanaeth yn yr eglwys, ac i'w ffyddlondeb i'r achos yn y lle.

CAPELYGROES A CHRIBYN.—Cynhaliwyd y cwrdd diolchgarwch yn y blaenaf nos Lun 11eg o Hydref, y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., Trebanos yn gwasanaethu. Caed cynulliad da a gwasanaeth da. Yn yr olaf cynhaliwyd y cwrdd diolchgarwch nos Iau, Hydref 14, a'r Parch. J. Marles Thomas, M.A., Cefncoed yn gwasanaethu. Caed cyfarfod lliosog, a gwasanaeth ardderchog.

CRIBYN.—Nos Iau, Hydref 22, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor gan Urdd y Benywod, pan y rhestrwyd un-ar-bymtheg o aelodau. Etholwyd Miss A. Davies, Pensarn yn Llywydd. Miss S. J. Harris, Maesteg yn Is-lywydd. Miss Peggy Jones, Maesyronnen yn drysorydd a Miss Myfanwy Evans, Maesnewydd yn ysgrifennydd. Ar ôl trefnu y rhaglen am y tymor cafwyd gwledd o de gan yr aelodau. Cyflwynwyd diolch yn gynnes iddynt gan y Gweinidog.

CAPELYGROES.—Llongyfarchiadau! Da fydd gan lu o gyfeillion glywed am lwyddiant dau fab y Beili. Mae yr hynaf Mr. Alun Evans wedi cael ei apwyntio fel *Relieving Officer* i gylch Aberaeron, ac y mae Mr. Eilir Evans wedi cael ei ddewis fel athro yn Ysgol Sir Aberteifi. Dymunwn iddynt eto bob llwyddiant yn eu gwaith.

[OLYSGRIF.—Er mwyn rhywrai a gar gywirdeb, hwyrach nad yw ond teg dywedyd i mi olygu'r "Ymofynnydd" yn ystod y flwyddyn gydag yn unig eithrio rhifynnau Ionor a Chwefror. Ni byddai'n deg i'r Golygydd gael y bai am fy ffaeleddau i. Diolch i bawb a roes ryw help, a maddeuant i'r lleill. Carwn fod wedi ysgrifennu pwt o lith ar George Eyre Evans yn cael dinasfraint rydd Caerfyrddin, ac adolygu 'Llwyfan yr Urdd a'r Ysgol' gan Gybi. Efallai y caf gyfleu eto.]

*J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.*

**A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)**
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. MC LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. 7/6 net (by post 8/-). Leather bound, gilt edges, 10/6 (by post 11/-). A book for every lover of great things in literature and life.

**CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION**
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price 1/- (by post 1/1). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

**THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY**
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price 1/- (by post 1/1). Cloth, 2/- (by post 2/2).

**DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES**
By C. M. WRIGHT, M.A. Price 6d. (by post 7d).

**CHRISTIAN EXPERIENCE**
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
**RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS**
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. 1/- each (by post 1/1).

*Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.*

**The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.**

---

**OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL**

—RHOWCH GOPI O'R—

# "PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

**ARGRAFFIAD SOLFFA.**

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ... | 7 | 0 |
| Lledr ... ... ... ... eto ... | 5 | 6 |
| Lledr, ochrau Llian ... ... ... eto ... | 4 | 6 |

**ARGRAFFIAD HEN NODIANT.**

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Lledr, Ymylon Aur ... ... ... ... ... | 7 | 6 |
| Rhwymiad Arbennig, eto ... ... ... ... | 15 | 0 |

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

**Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.**

# Cecil Jones, F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street

ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.